WALES FOR EUROPE
CYMRU DROS EWROP

Llythyr agored i Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

Dydd Llun 7fed Ionawr 2019

Llongyfarchiadau ar eich penodiad yn Brif Weinidog. Rydych wedi dod i'r swydd fel Prif Weinidog Cymru ar groesffordd yn ein hanes. Mae'r Deyrnas Unedig yn wynebu ei hargyfwng mwyaf difrifol mewn cyfnod o heddwch ers canrif neu fwy. Mae'r Llywodraeth, pleidiau a'r bobl wedi'u rhannu. Ymddengys fod San Steffan wedi'i pharlysu gan garfannau. Mae anhrefn gwleidyddol yn ddisgrifiad cywir o'r hyn a welwn. Mae'r bygythiad y mae hyn yn ei gyflwyno i bobl, economi a chymunedau Cymru yn arbennig o ddifrifol.

Fel Ewropeaid Cymreig, rydym yn edifarhau canlyniad refferendwm 2016, ond ni fydd Brexit yn lleddfu'r anfodlonrwydd a'r dadrithiad a fynegodd ynghylch ein hamgylchiadau economaidd a chymdeithasol. Yn lle hynny, bydd Brexit yn ei wneud yn llawer anoddach mynd i'r afael â nifer fawr o broblemau dwys sy'n effeithio fwyaf ar ein bywydau.

Mae llywodraethau Cymru a'r Alban wedi dadlau mai'r Brexit mwyaf meddal sydd ei angen ar ein gwledydd, tu fewn i'r farchnad sengl a'r undeb tollau. Nid oes unrhyw un wedi gwrando arnynt, ac ni fydd cytundeb honedig llywodraeth San Steffan gyda'r UE yn gwireddu'r amcanion hyn.

Nid yw'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol hwnnw yn gytundeb terfynol. Nid yw ond llinell o dan y gorffennol. O ran y dyfodol, dim ond 'datganiad' sydd gennym, rhestr 27 tudalen o faterion heb eu datrys, ac weithiau dyheadau sy'n gwrthdaro, i'w trafod dros y ddwy, neu efallai pedair, blynedd nesaf. Nid yw'n gorffen yr ansicrwydd, mae'n ei barhau. Nid yw'n sail i roi'r gorau i ddiogelwch ein haelodaeth bresennol o'r UE.

Mae'n amlwg i bawb na fydd y 'cytundeb' hwn yn cael ei gymeradwyo. Nid oes gan y llywodraeth hon fandad i gael un arall, ac mae'n anhebygol y byddai'r UE yn cynnig telerau gwahanol iawn i lywodraeth wahanol. Mae'r perygl enbyd byddem yn syrthio allan o'r UE heb unrhyw gytundeb yn real iawn.

Ymhell o 'gymryd rheolaeth yn ôl', mewn byd o bwerau cyfandirol, byddai'r fargen hon yn ein gwneud yn ymbilgar am byth.' Diolch byth, mae Llys Cyfiawnder Ewrop yr wythnos hon wedi agor llwybr newydd i ni trwy ddatgan y gallwn, yn unochrog, ddirymu Erthygl 50 ac felly atal y cloc. Wythnos diwethaf dangosodd arolwg barn bod mwyafrif mawr o bleidleiswyr a chefnogwyr Llafur yn cefnogi refferendwm newydd.

Mae difrifoldeb ein sefyllfa yn gofyn am arweinyddiaeth ddewr ac eglurder gan pob plaid, ynghyd ag amser i ymgynghori â'r cyhoedd unwaith eto. Dyma'r unig ffordd allan o'r cyfyngder Seneddol.

Rydym yn eich annog, felly, i ddefnyddio eich swydd newydd i'r eithaf er mwyn mynnu - gan Lywodraeth y DU ac arweinyddiaeth y DU y blaid Lafur – Pleidlais y Bobl newydd lle byddai aelodaeth barhaus o'r Undeb Ewropeaidd yn opsiwn ar y bleidlais. Mae angen yr ymrwymiad hwn ni waeth a elwir Etholiad Cyffredinol ai peidio.

WALES FOR EUROPE
CYMRU DROS EWROP

A lofnodwyd gan

Tonia Antoniazzi AS (Llaf - Y Gwyr)

Chris Bryant AS (Llaf – Rhondda)

Geraint Davies AS (Llaf - G. Abertawe)

Stephen Doughty AS (Llaf - D. Caerdydd & Phenarth)

Jonathan Edwards AS (PC - D. Caerf. & Dinefwr)

Susan Elan Jones AS (Llaf - De Clwyd)

Ben Lake AS (PC - Ceredigion)

Anna McMorrin AS (Llaf - Gogledd Caerdydd)

Madeleine Moon AS (Llaf - Penybont)

Albert Owen AS (Llaf - Ynys Môn)

Liz Saville Roberts AS (PC - Dwyfor Meirionnydd)

Owen Smith AS (Llaf - Pontypridd)

Jo Stevens AS (Llaf - Caerdydd Canolog)

Hywel Williams AS (PC - Arfon)

Rhun ap Iorwerth AC (PC - Ynys Môn)

Alun Davies AC (Llaf - Blaenau Gwent)

Llyr Gruffydd AC (PC - North Wales)

Siân Gwenllian AC (PC - Arfon)

Ann Jones AC (Llaf - Dyffryn Clwyd)

Helen Mary Jones AC (PC - Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Steffan Lewis AC (PC - Dwyrain De Cymru)

Dai Lloyd AC (PC - Gorllewin De Cymru)

Lynne Neagle AC (Llaf - Torfaen)

Adam Price AC (Arweinydd, PC - D. Caerf. & Dinefwr)

Bethan Sayed AC (PC - Gorllewin De Cymru)

Joyce Watson AC (Lab - Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Leanne Wood AC (PC - Rhondda)

Jill Evans ASE (PC)

Derek Vaughan ASE (Llaf)

Jane Dodds - Arweinydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Anthony Slaughter, Arweinydd Plaid Werdd

Cllr Huw Thomas, Arweinydd, Cyngor Caerdydd (Llad)

Cllr Debbie Wilcox, Arweinydd, CLlLA & Cyngor Casnewydd (Lab)

Cllr Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Torfaen (Llaf)

Cllr Dyfrig Siencyn, Arweinydd, Cyngor Gwynedd (PC)

Cllr Ellen ap Gwynne, Arweinydd, Cyngor Ceredigion (PC)

Cllr William Powell – Cyngor Powys, Llywydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Arglwydd Dafydd Wigley (PC)

Y Farwnes Jenny Randerson (WLD)

Yr Arglwydd Mike German (WLD)

Y Farwnes Christine Humphreys (DR)

Yr Arglwydd Martin Thomas (DR)

Y Parchedicaf Barry Morgan, cyn Archesgob Cymru

Dr Hywel Ceri Jones, Aelod Grwp Cynghori ar Ewrop Llywodraeth Cymru

Gwyneth Sweatman, Llywydd UCM Cymru

Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, Cymru Dros Ewrop

Peter Frederick Gilbey, Cyfarwyddwr, Cymru Dros Ewrop

Helen Wales, Caerdydd Dros Ewrop

Sally Stephenson, Bro Morgannwg Dros Ewrop

Stephen Cocks, Gwent Dros Ewrop

Shaun Thomas, Cymoedd Dros Ewrop

Rob Evans, Penybont Dros Ewrop

Paul Willner, Abertawe Dros Ewrop

Katie Powis, Castell Nedd Port Talbot Dros Ewrop

Chris Passmore, Sir Gâr Dros Ewrop

Alistair Cameron, Sir Benfro Dros Ewrop

Leena Farhat, Ceredigion Dros Ewrop

Jackie Charlton, Brycheiniog & Sir Faesyfed Dros Ewrop

Silas Jones, Gogledd Cymru Dros Ewrop

Gareth Wyn Roberts, Ynys Môn Dros Ewrop

Martin Hughes, Gwynedd Dros Ewrop

Neal Cole, Wrecsam Dros Ewrop

Tricia Skitt, Sir Drefaldwyn Dros Ewrop